# Gwasanaeth Cyfamod

## o Lyfr Addoliad Y Methodistiaid

© 1999 Ymddiriedolwyr Dibenion yr Eglwys Fethodistaidd

Cyhoeddwyd gyntaf yn 1999

Cyhoeddwyd yr argraffiad hwn yn 2022

*Y mae Llyfr Addoliad y Methodistiaid / Methodist Worship Book i'w gael yn yr argraffiadau canlynol*:

Testun llawn, Saesneg, ISBN 978 1 85852 116 9
Argraffiadau cyflwyniad, testun llawn
Wedi'i rwymo mewn glas, ISBN 978 1 85852 119 0
Wedi'i rwymo mewn coch, ISBN 978 1 85852 120 6
Wedi'i rwymo mewn gwyrdd, ISBN 978 1 85852 121 3
Argraffiad Dwyieithog (Cymraeg/Saesneg,
ISBN 978 1 85852 117 6
Print bras, Saesneg, ISBN 978 1 85852 118 3

Mae cynnwys y llyfr hwn wedi ei awdurdodi gan Gynhadledd y Methodistiaid i'w ddefnyddio yn yr Eglwys Fethodistaidd. Ni chaniateir ei atgynhyrchu naill ai'n gyfan gwbl nac yn rhannol, boed ar werth neu fel arall, mewn unrhyw fodd heb ganiatâd yr Eglwys Fethodistaidd (publishing@ methodistchurch.org.uk).

Defnyddir tudaleniad unffurf ym mhob rhifyn o *Lyfr Addoliad y Methodistiaid*.

# Cydnabyddiaethau

Gwnaethpwyd pob ymdrech i sicrhau bod y rhestr ganlynol o gydnabyddiaethau mor gynhwysfawr â phosibl, ond mae profiad y rhai a fu’n ymwneud â pharatoi **Llyfr Addoliad y Methodistiaid** yn debyg i brofiad casglwyr **Llyfr Trefn Gyffredin** Eglwys Yr Alban, sy'n datgan:

> Mae llawer o ffynonellau wedi cyfrannu at lunio'r llyfr hwn, ac nid oes modd olrhain pob un ohonynt bellach. Paratôdd aelodau unigol o’r Pwyllgor ddrafftiau, a adolygwyd fwy neu lai’n llym gan y Pwyllgor, gan arwain yn aml at fersiynau terfynol nad oeddent yn edrych yn debyg iawn i’r drafftiau gwreiddiol. Ymhlith yr hyn a gollwyd yn y broses hirfaith hon oedd hunaniaeth llawer o'r ffynonellau; nid oedd modd eu hadalw, ac nid oedd yn ymddangos bod unrhyw ffordd i'w holrhain. Mae’r Panel yn dymuno cofnodi ar unwaith ei ddyled i unrhyw un sy’n adnabod yn y llyfr hwn rythmau a phatrymau, ymadroddion a chymalau, syniadau a delweddau sy’n eiddo iddynt hwy, ac yn gofidio y daeth yn amhosibl gofyn caniatâd neu geisio cydsyniad i’w cynnwys...
>
> Os, trwy amryfusedd, y mae deunydd hawlfraint wedi ei ddefnyddio heb ganiatâd neu gydnabyddiaeth, bydd y cyhoeddwr yn ddiolchgar i gael gwybod a bydd yn falch o wneud y cywiriad angenrheidiol mewn argraffiadau yn y dyfodol.

Ac eithrio lle nodir isod, cymerir yr holl destunau Beiblaidd o’r Beibl Cymraeg Newydd, © 1988 Cymdeithas y Beibl. Cedwir pob hawl.

Fersiwn Gymraeg y *Credo Nicea, Credo'r Apostolion,, Sanctus, Benedictus Qui Venit, a Gw*eddi'r Arglwydd (fersiwn modern) © Gwasg yr Eglwys yng Nghymru.

Mae testun* Salm 51 ar dudalen 286 yn ymddangos yn **Llyfr Gweddi Seland Newydd - He Karakia Mihinare o Aotearoa**, © 1989 Ysgrifennydd Taleithiol, Eglwys Talaith Seland Newydd.

Tud 287 **I ti dymunwn fyw, O! Iesu da** - Elfed
© Howell Elvet Lewis

# GWASANAETH CYFAMOD

## RHAGYMADRODD

O ddyddiau cynharaf y seiadau Methodistaidd, gwahoddodd John Wesley y Methodistiaid i adnewyddu eu perthynas gyfamodol â Duw. Seiliodd Wesley lawer o'i ddeunydd ar gyfer y gwasanaeth ar Biwritaniaid yr ail ganrif ar bymtheg, gan wneud newidiadau i hynny'n ddiweddarach. Adolygodd y Gynhadledd Wesleaidd ef ddwywaith yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac yr oedd gan ganghennau eraill o Fethodistiaid fersiynau ohono.

Cynhwysai'r **Llyfr Ordinhadau** (1936) ffurf ar y ***Gwasanaeth Adnewyddu'r Cyfamod*** a enillodd boblogrwydd mawr. Cadarnhaodd y fersiwn yn **Llyfr Gwasanaeth Yr Eglwys Fethodistaidd** (1975) y ddolen gyswllt rhwng Adnewyddu'r Cyfamod a'r Cymun Bendigaid, ond ar gost colli rhai hoff ddarnau cyfarwydd. Cafodd rhai o'r rhain eu hailbwrw a'u hadfer, i raddau helaeth yn yr adran ar edifeirwch.

Mae'r **Gwasanaeth Cyfamod** presennol yn symud o foliant i'r Drindod at wrando ar y gair yn yr ysgrythur, yn cael ei ddarllen a'i bregethu, ac yna mae'n dilyn gydag ymateb edifeiriol i eiriau'r Cyfamod. Mae'r newidiadau yn y defnydd a'r ddealltwriaeth o iaith wedi arwain at ddarpariaeth o ddwy ffurf ar y rhan hon o'r gwasanaeth. Cynigir y ffurf gyntaf fel fersiwn gyfoes o Weddi'r Cyfamod; y testun mwy traddodiadol yw'r ail ffurf. Yn y ffurf hon, mae'r geiriau 'dod fi i weithio, dod fi i ddioddef' wedi codi anawsterau i rai pobl. Nid yw'r geiriau hyn yn golygu ein bod yn gofyn i Dduw wneud inni ddioddef, ond yn hytrach ein bod ni yn dymuno, trwy gymorth Duw, un ai gweithredu neu dderbyn yn ddioddefgar beth bynnag fo ewyllys Duw ar ein cyfer.

Mae pwyslais yr holl wasanaeth yn cael ei roi ar barodrwydd Duw i'n cofleidio ni mewn cariad haelionus, heb inni orfod bod yn haeddiannol o hynny. Mae ein hymateb ninnau mewn cariad yn dod gyda llawenydd edifeiriol am adnabyddiaeth ddiolchgar o ras Duw. Nid dealltwriaeth un-i-un rhwng unigolion a Duw yn unig ydyw'r Cyfamod, ond gweithred sy'n

ymwneud a holl gymuned ffydd. Mae'r gweddïau o eiriolaeth sy'n dilyn yn pwysleisio ein hundod a'r holl ddynoliaeth. Aiff y gwasanaeth yn ei flaen at y Cymun Bendigaid, a cheir ffurf arbennig ar ei gyfer er mwyn pwysleisio'r dilyniant rhwng gair, ymateb a sacrament. Bwriad y gwasanaeth yw ein harwain, ar hyd llwybr sydd yn debyg ac yn anhebyg i un addoliad arferol y Sul, at yr ymrwymiad y mae pob addoliad yn ceisio ei ysbrydoli a'i atgyfnerthu.

## NODIADAU

1 Dim ond unwaith y flwyddyn y dylid cynnal y ***Gwasanaeth Cyfamod*** fel arfer.

2 Pa amser bynnag o'r dydd y cynhelir y gwasanaeth hwn, dylid ei ystyried yn brif wasanaeth a dylid ei ddefnyddio'n gyflawn.

---

## CYNULLIAD O BOBL DDUW

1 Emyn

2 Gweddïwn.

Gogoniant i'r Tad, Duw cariad,
sydd wedi'n creu ni;
sydd yn ein cadw a'n cynnal yn barhaus;
sydd wedi ein caru a chariad tragwyddol,
ac wedi rhoi inni oleuni gwybodaeth ei ogoniant
yn wyneb Iesu Grist.

**Bendigedig fyddo Duw am byth.**

Gogoniant i Iesu Grist ein Harglwydd,
er ei fod yn gyfoethog,
daeth er ein mwyn ni'n dlawd,
cafodd ei brofi ym mhob peth yn yr un modd a ni,
ac eto heb bechod;

pregethodd efengyl y deyrnas,
a bu'n ufudd hyd angau,
ie, angau ar groes;
cyfodwyd ef oddi wrth y meirw ac y mae'n fyw am byth,
agorodd deyrnas nef
i bawb sy'n ymddiried ynddo;
y mae'n eistedd ar ddeheulaw Duw mewn gogoniant
ac fe ddaw i fod yn farnwr arnom.

**Bendigedig fyddo Duw am byth.**

Gogoniant i'r Ysbryd Glân, yr Arglwydd, rhoddwr bywyd,
trwyddo ef y genir ni i deulu Duw,
a'n gwneud yn aelodau o gorff Crist;
ei dystiolaeth sy'n ein cadarnhau;
ei ddoethineb sy'n ein dysgu;
ei allu sy'n ein nerthu;
fe wna fwy er ein mwyn nag y gallwn ni ei ddeisyfu
na'i ddychmygu.

**Bendigedig fyddo Duw am byth.**

I'r un Duw, y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân,
y byddo mawl a gogoniant am byth. **Amen.**

## 3 Distawrwydd

## 4 Colect

Dduw graslon,
gosodaist ti dy Fab
yn gyfryngwr cyfamod newydd.
Gan hynny, dyro inni ras i nesu mewn llawn hyder ffydd
ac i'n huno ein hunain a thydi mewn cyfamod gwastadol;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

## GWEINIDOGAETH Y GAIR

5 Darlleniad or Gyfraith.

Darllenir Exodus 24:3-11 *neu* Deuteronomium 29:10-15.

Am y ddoethineb sy'n ein harwain
**Molwn di, O Dduw.**

6 Darlleniad o'r Proffwydi.

Darllenir Jeremeia 31:31-34.

Am y gair sy'n ein hysbrydoli
**Molwn di, O Dduw.**

7 Darlleniad o'r Epistol.

Darllenir Rhufeiniaid 12:1-2.

Am y gwirionedd sy'n ein goleuo
**Molwn di, O Dduw.**

8 Emyn

9 Darlleniad o'r Efengyl yn ôl…

Gwrandewch ar Efengyl Crist.
**Gogoniant i Grist ein Gwaredwr.**

Darllenir Yr Efengyl, Ioan 15:1-10 neu Marc 14:22-25.

Hon yw Efengyl Crist.
**Moliant i Grist ein Harglwydd.**

10 Y Bregeth

11 Emyn

## Y CYFAMOD

12 Gwnaeth Duw gyfamod ag Israel, a alwyd i fod yn genedl sanctaidd, ac a ddewiswyd i dystiolaethu i'w gariad diysgog drwy ymhyfrydu yn y gyfraith.

Adnewyddwyd y cyfamod yng Nghrist Iesu ein Harglwydd, yn ei fywyd a'i waith, ei farwolaeth a'i atgyfodiad, er mwyn i bawb ynddo ef gael eu rhyddhau oddi wrth bechod a'i rym, a'u huno mewn cariad ac ufudd-dod.

Yn y cyfamod hwn y mae Duw yn addo rhoi inni fywyd newydd yng Nghrist. Yr ydym ninnau'n ymrwymo i beidio a byw mwyach i ni ein hunain ond i Dduw.

Gan hynny, yr ydym yn awr yn ymgynnull, fel y gwnaeth cenedlaethau o'n blaen, i adnewyddu'r cyfamod a'u rhwymodd hwy ac sy'n ein rhwymo ninnau i Dduw.

Gadewch inni geisio maddeuant am ein pechod a barodd inni wadu hawl Duw arnom.

13 Gweddïwn.

Dduw trugarog, gwrando ni wrth inni gyffesu ein pechodau.

Am y pechod a'n gwnaeth yn araf i ddysgu oddi wrth Grist,
yn gyndyn o'i ddilyn,
ac yn anfodlon i gario'r groes:

Arglwydd, trugarha,
**Arglwydd, maddau.**

Am y pechod a wnaeth ein haddoliad mor dlawd,
ffurfioldeb a hunanoldeb ein gweddïau,
ein hesgeulustod o gyfeillach a moddion gras,
a phetruster ein tystiolaeth dros Grist:

Arglwydd, trugarha,
**Arglwydd, maddau.**

Am y pechod a barodd inni gamddefnyddio dy ddoniau,
osgoi ein cyfrifoldebau,
a methu bod yn oruchwylwyr da dros dy greadigaeth di:

Arglwydd, trugarha,
**Arglwydd, maddau.**

Am y pechod a'n gwnaeth yn anfodlon i drechu drygioni a daioni,
yn oddefgar o anghyfiawnder,
yn barod i ruthro i gollfarnu,
ac yn hunanol wrth rannu'th gariad ag eraill:

Arglwydd, trugarha,
**Arglwydd, maddau.**

Distawrwydd

**Bydd drugarog wrthyf, O Dduw,**
**yn ôl dy gariad ffyddlon;**
**yn ôl dy fawr dosturi dilea fy meiau.**
**Golch fi'n lân o'm heuogrwydd,**
**a glanha fi o'm pechod.**
**Crea galon lân ynof, O Dduw,**
**rho ysbryd newydd cadarn ynof.**
**Dyro imi eto orfoledd dy iachawdwriaeth**
**a chynysgaedda fi ag ysbryd ufudd.**

Dywed y gweinidog sy'n llywyddu::

Os cyffeswn ein pechodau,
y mae Duw yn ffyddlon ac yn gyfiawn,
ac fe faddeua felly inni ein pechodau,
a'n glanhau o bob anghyfiawnder.

Am hynny, i bawb sy'n edifarhau mewn gwirionedd
dyma ei air graslon:
'Maddeuwyd i ti dy bechodau'.

**Amen. Diolch fo i Dduw.**

14 Emyn

**I ti dymunwn fyw, O Iesu da,**
**ar lwybrau esmwyth oes, dan heulwen ha':**
**neu os daw'r niwl i guddio'r wybren las**
**na ad i'm hofnau atal gwaith dy ras.**

**Yn fwy bob dydd i ti dymunwn fyw**
**gan wneud dy waith yn well, gwaith engyl yw;**
**a gad i mi, wrth ddringo'u hysgol hwy,**
**gael beunydd weld o'th degwch lawer mwy.**

**Os rhaid ymwadu, dyro ras i mi**
**rhag cadw dim yn ôl oddi wrthyt ti:**
**na chaed nac aur na chlod na swyn y byd**
**dy atal, Iesu da, i lenwi 'mryd.**

**Ni allaf roddi fel y rhoddaist im;**
**'rwy'n gweld, yng ngolau'r groes, fy ngorau'n ddim:**
**ond at y groes, er hynny, deuaf fi,**
**i'm rhoi fy hunan i'th ewyllys di.**

**Fy hunan oll i ti, O Iesu da,**
**er dyfod cwmwl du neu heulwen ha';**
**o fore oes hyd nes i'r cyfnos ddod**
**rho im y fraint o fyw bob dydd i'th glod.**

15 A'r bobl yn sefyll, dywed y gweinidog:

NAILL AI

**A** Chwiorydd a brodyr yng Nghrist,
gadewch i ni o'r newydd dderbyn ein lle o fewn y cyfamod
hwn a wnaeth ein Duw â ni ac â phawb a alwyd i fod yn
ddisgyblion Crist.

Mae hyn yn golygu, gyda chymorth yr Ysbryd Glân,
ein bod yn derbyn pwrpas Duw ar ein cyfer,
a'r alwad i garu a gwasanaethu Duw
yn ein bywyd a'n gwaith i gyd.

Y mae Crist yn rhoi gorchwylion lawer i’w cyflawni:
y mae rhai yn hawdd, eraill yn anodd;
rhai yn dwyn anrhydedd, eraill waradwydd;
rhai’n gydnaws â’n tueddiadau naturiol a’n buddiannau materol,
eraill yn anghydnaws â’r naill a’r llall;
mewn rhai gallwn ryngu bodd Crist a’r eiddom ein hunain,
mewn eraill ni allwn ryngu bodd
Crist ond trwy ymwadu â ni ein hunain.
Er hynny galluogir ni i wneud y pethau hyn i gyd trwy Grist, sy’n ein nerthu ni.

Gan hynny gwnawn y cyfamod hwn o’r eiddo Duw yn eiddo i ni ein hunain.
Gadewch inni ein cyflwyno ein hunain iddo ef,
gan ymddiried yn ei addewidion a phwyso ar ei ras.

Tragwyddol Dduw,
yn dy gariad ffyddlon a goddefgar
gelwaist arnom i gyfranogi o’r cyfamod graslon hwn yn Iesu Grist,
Mewn ufudd-dod clywn a derbyniwn dy orchmynion;
mewn cariad ceisiwn gyflawni dy ewyllys berffaith di;
mewn llawenydd offrymwn ein hunain o’r newydd i ti.
Nid ydym mwyach yn eiddo i ni ein hunain, ond i ti.

**Nid wyf mwyach yn eiddo i mi fy hun, ond i ti.**
**Dy ewyllys di, nid fy ewyllys i, a wneler ym mhob peth,**
**ym mha le y gosodir fi,**
**ym mhob dim a wnaf**
**ac ym mhob peth y gelwir arnaf i oddef;**
**pan fydd gwaith i mi**
**a phan fydd dim i'w wneud;**
**pan fyddaf yn bryderus**
**a phan fyddaf yn dawel fy meddwl.**
**Dy ewyllys di a wneler**
**pan werthfawrogir fi**
**a phan y'm diystyrir;**
**pan ddarganfyddaf gyflawniad**
**a phan nad oes dim;**
**pan fydd gennyf bopeth,**
**a phan fydd ddim gennyf.**

**Offrymaf o wirfodd**
**bopeth sydd gennyf a phopeth yr wyf**
**i'th wasanaethu di,**
**pa bryd a pha le bynnag y dewisi.**

**Gogoneddus a bendigedig Dduw,**
**Dad, Mab ac Ysbryd Glan,**
**yr wyt ti'n eiddo fi a minnau'n eiddot ti.**
**Bydded felly am byth.**
**A bydded i'r cyfamod hwn a wnaed yn awr ar y ddaear**
**fod wedi ei gadarnhau yn y nefoedd. Amen.**

NEU

**B** Gyfeillion annwyl yng Nghrist,
gadewch inni o'r newydd dderbyn i ni ein hunain
y cyfamod hwn a wnaeth Duw a'i bobl,
a chymryd arnom iau Crist.

Mae hyn yn golygu ein bod yn fodlon
iddo ef bennu ein lle a'n gwaith,
ac mai ef ei hun fydd ein gwobr.

Y mae Crist yn rhoi gorchwylion lawer i'w cyflawni;
y mae rhai yn hawdd, eraill yn anodd;
rhai yn dwyn anrhydedd, eraill waradwydd;
rhai'n gydnaws a'n tueddiadau naturiol a'n buddiannau materol,
eraill yn anghydnaws a'r naill a'r llall;
mewn rhai gallwn ryngu bodd Crist a'r eiddom ein hunain;
mewn eraill ni allwn ryngu bodd Crist ond trwy ymwadu a ni ein hunain.
Er hynny galluogir ni i wneud y pethau hyn i gyd trwy Grist, sy'n ein nerthu ni.

Gan hynny gwnawn y cyfamod hwn o'r eiddo Duw yn eiddo i ni ein hunain.
Gadewch inni ein cyflwyno ein hunain o'r newydd iddo ef,
gan ymddiried yn ei addewidion a phwyso ar ei ras.

Arglwydd Dduw, Dad sanctaidd,
gan dy fod wedi'n galw trwy Grist
i gyfranogi o'r cyfamod graslon hwn,
yr ydym yn cymryd arnom ein hunain yn llawen iau ufudd-dod,
ac o gariad atat ti yn ymrwymo ein hunain i geisio ac i gyflawni
dy ewyllys berffaith di.
Nid ydym mwyach yn eiddo i ni ein hunain, ond i ti.

**Nid wyf mwyach yn eiddo i mi fy hun, ond i ti.**
**Dyro imi'r dasg a fynni,**
**gosod fi gyda'r neb a ewyllysi;**
**dod fi i weithio,**
**dod fi i ddioddef;**
**gosod fi mewn gwasanaeth drosot**
**neu tro fi heibio er dy fwyn;**
**dyrchafer fi neu**
**darostynger fi drosot;**
**gwna fi'n gyfoethog,**
**gwna fi'n dlawd;**
**dyro imi bopeth,**
**gad fi heb ddim;**
**yn ddi-atal ac o'r galon yr wyf yn ildio popeth oil i'th**
**ewyllys a'th orchymyn di.**

**Ac yn awr, gogoneddus a bendigedig Dduw,**
**Dad, Mab ac Ysbryd Glân,**
**yr wyt ti'n eiddof fi a minnau'n eiddot ti.**
**Bydded felly.**
**A bydded i'r cyfamod hwn a wnaed yn awr ar y ddaear**
**fod wedi ei gadarnhau yn y nefoedd. Amen.**

16 Distawrwydd, a phawb yn eistedd

17 Yr ydym wedi ymrwymo i'r cyfamod hwn, nid yn unig ar ein rhan ein hunain, ond fel gweision a thystion i Dduw Gan hynny, gweddïwn dros yr Eglwys a'r byd.

Gwrando ni, Dad cariadlon, wrth inni weddïo dros dy
Eglwys lân gatholig:
**gwna ni oll yn un, er mwyn i'r byd gredu.**

Ysbrydola ac arwain bawb sy'n llywodraethu ac mewn awdurdod yng nghenhedloedd y byd:
**sefydla gyfiawnder a heddwch ymhlith yr holl bobloedd.**

Tosturia wrth bawb sy'n dioddef o unrhyw waeledd, galar neu ofid:
**gwared hwy o'u trallod.**

Molwn di am dy holl saint a aeth i mewn i'th ogoniant tragwyddol:
**dwg ni oll i gyfranogi o'th deyrnas nefol.**

Gadewch inni weddïo'n ddistaw, gan gofio am ein anghenion ein hunain ac anghenion pobl eraill...

Distawrwydd

Arglwydd ein Duw, buost yn gymorth i ni,
drwy dy ras, i offrymu'r gweddïau hyn i ti, ac addewaist,
trwy Grist ein Harglwydd
pan fydd dau neu dri yn cytuno yn ei enw ef, y byddi'n
caniatáu yr hyn a ofynnant.
Ateb yn awr weddïau dy weision
yn ôl eu anghenion;
yn y byd hwn, caniatâ inni dy wir adnabod,
ac yn y byd a ddaw dyro inni trwy dy ras fywyd tragwyddol;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

## SWPER YR ARGLWYDD

### 18 Y Tangnefedd

Pawb yn sefyll.

Gwnaeth yr Arglwydd cyfamod hedd tragwyddol gyda'i bobl.

Tangnefedd yr Arglwydd a fo gyda chwi hyd byth.
**A chyda thithau.**

Gall y bobl gyfarch eu gilydd yn enw Crist.

## PARATOI'R RHODDION

19 Emyn

20 Cyflwynir offrymau'r bobl. Dygir bara a gwin at y bwrdd, (neu os ydynt eisoes ar y bwrdd, dadorchuddir hwy). Cymer y gweinidog sy'n llywyddu y bara a'r gwin a'u paratoi i'w defnyddio

## Y DIOLCHGARWCH

21 Pawb yn sefyll.

Y mae'r gweinidog sy'n llywyddu yn arwain y weddi fawr o ddiolchgarwch

Yr Arglwydd a fo gyda chwi.
**A chyda chithau.**

Dyrchefwch eich calonnau.
**Yr ydym yn eu dyrchafu i'r Arglwydd.**

Diolchwn i'r Arglwydd ein Duw.
**Addas yw rhoddi ein diolch a mawl.**

Dduw ein Tad, ffynnon daioni,
creawdwr popeth sy'n bod,
gwnaethost ni ar dy ddelw dy hun.
Rhoddaist inni fywyd a synnwyr,
a chariad tuag at ein gilydd,
gan osod yn ein calonnau newyn amdanat ti.

Mewn tywyllwch ti yw ein goleuni,
mewn adfyd a themtasiwn ti yw ein nerth.
Yr wyt yn amyneddgar tuag atom yn ein ffolineb a'n pechod,
gan roi inni dy gyfraith i'n harwain
a'th broffwydi i adnewyddu ein ffydd.

Yng nghyflwyniad yr amser,
daethost atom mewn cariad a thrugaredd
yn Iesu Grist, dy Air bywiol,
yn llawn gras a gwirionedd.

Bu fyw yn ein plith,
gan gyhoeddi dy faddeuant
ac amlygu dy ddoethineb
mewn gweithredoedd trugarog a thrwy ei air nerthol.
Er ein mwyn ni, dioddefodd a bu farw ar y groes,
a thrwy ei angau dinistriodd angau.
Cyfodaist ef oddi wrth y meirw
a'i ddyrchafu ef at dy ddeheulaw.
Drwyddo ef anfonaist dy Ysbryd Glân
i fod yn fywyd a goleuni i'th bobl,
sy'n ymgynnull ym mhob amser a lie
i ogoneddu dy enw sanctaidd.

Gyda hwy a holl gwmpeini nef,
ymunwn yn yr emyn diddiwedd o fawl:

**Sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd Arglwydd,**
**Duw gallu a nerth,**
**nef a daear sy'n llawn o'th ogoniant.**
**Hosanna yn y goruchaf.**
**Bendigedig yw'r un sy'n dyfod yn enw'r Arglwydd.**
**Hosanna yn y goruchaf.**

Sanctaidd Dduw, anfon dy Ysbryd
fel y byddo'r rhoddion hyn o fara a gwin
yn gorff a gwaed dy Fab Iesu Grist ein Harglwydd,
yr hwn, ar y nos y bradychwyd ef,
a gymerodd fara, a diolchodd, a'i torrodd,
ac a'i rhoddodd i'w ddisgyblion, gan ddweud,
'Cymerwch a bwytewch hwn.
Hwn yw fy nghorff a roddir drosoch.
Gwnewch hyn er cof amdanaf.'

Yn yr un modd, wedi swper,
cymerodd y cwpan, diolchodd,
a'i roddi iddynt, gan ddweud,

'Yfwch bawb o hwn.
Hwn yw fy ngwaed o'r cyfamod newydd,
a dywelltir drosoch a thros lawer,
er maddeuant pechodau.
Gwnewch hyn bob tro yr yfwch ef,
er cof amdanaf.'

**Crist a fu farw.**
**Crist a gyfodwyd.**
**Crist a ddaw drachefn.**

Gan hynny, Arglwydd, yr ydym yn ufuddhau i'w orchymyn,
gyda'r bara hwn a'r cwpan hwn,
yr ydym yn dwyn i gof ei farwolaeth a'i atgyfodiad,
ffynhonnell ein bywyd a'n hiachawdwriaeth.
Caniatâ, felly, i ni,
sy'n cydgyfranogi yn y sacrament sanctaidd hwn,
gael ein huno gan dy Ysbryd
a thyfu tuag at gariad perffaith.

Dwg ni,
gyda'r rhai a wnaeth dy ewyllys ym mhob oes,
i oleuni dy bresenoldeb
a llawenydd dy deyrnas.

**Trwy Grist, gyda Christ, yng Nghrist,**
**yn nerth yr Ysbryd Glân,**
**addolwn di gyda chaneuon o foliant diddiwedd.**
**Bendith ac anrhydedd a gogoniant a nerth**
**a fo i ti yn awr ac yn-oes oesoedd. Amen.**

## 22 Gweddi'r Arglwydd

NAILL AI
Dywedwn gyda'n gilydd
Y weddi a roddodd
Iesu i ni:
**Ein Tad yn y nefoedd**
**sancteiddier dy Enw,**
**deled dy deyrnas,**
**gwneler dy ewyllys,**
**ar y ddaear fel yn y nef.**

NEU
Gweddïwn, fel y dysgodd
ein Ceidwad ei
ddisgyblion i weddïo:
**Ein Tad, yr hwn wyt yn**
**y nefoedd,**
**sancteiddier dy Enw;**
**deled dy deyrnas;**
**gwneler dy ewyllys;**

**Dyro i ni heddiw**
**ein bara beunyddiol.**
**a maddau i ni ein troseddau**
**fel yr ŷm ni**
**wedi maddau i'r rhai a droseddodd yn ein herbyn;**
**a phaid â'n dwyn i brawf,**
**ond gwared ni rhag**
**yr Un drwg.**
**Oherwydd eiddot ti yw'r deyrnas,**
**a'r gallu, a'r gogoniant.**
**am byth. Amen.**

**megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.**
**Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol**
**A maddau i ni ein dyledion,**
**fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.**
**Ac nac arwain ni i brofedigaeth;**
**eithr gwared ni rhag drwg.**
**Canys eiddot ti yw'r deyrnas,**
**a'r nerth a'r gogoniant**
**yn oes oesoedd. Amen.**

## TORRI'R BARA

23 Y mae'r gweinidog sy'n llywyddu yn torri'r bara yng ngŵydd y bobl, mewn distawrwydd, neu gan ddweud:

Pethau Duw ar gyfer pobl sanctaidd Duw.

**Iesu Grist sydd sanctaidd;**
**Iesu Grist sydd Arglwydd.**
**Gogoniant i Dduw y Tad.**

24 Distawrwydd, pawb yn eistedd neu'n penlinio

## RHANNU'R BARA A'R GWIN

25 Y mae'r gweinidog sy'n llywyddu yn derbyn gyntaf, yna'r rhai sy'n cynorthwyo gyda'r rhannu, ac yna'r bobl yn ôl yr arferiad lleol.

Gall y gweinidog sy'n llywyddu estyn gwahoddiad drwy ddweud y geiriau hyn neu eiriau eraill:

Dywedodd Iesu: 'Myfi yw bara'r bywyd.
Ni bydd eisiau bwyd byth ar y sawl sy'n dod ataf fi,
ac ni bydd syched byth ar y sawl sy'n credu ynof fi.'

Dewch yn nes trwy ffydd.

26 Yn ystod y rhannu, dywedir geiriau megis y rhai a ganlyn:

Corff Crist a'th gadwo i fywyd tragwyddol. **Amen.**

Gwaed Crist a'th gadwo i fywyd tragwyddol. **Amen.**

27 Yn ystod y rhannu gellir cael cerddoriaeth addas.

28 Y mae'r llywydd yn gorchuddio'r hyn sy'n weddill o'r elfennau â lliain gwyn.

## GWEDDÏAU I DERFYNU

29 Distawrwydd

30 Gweddïwn.

**Dduw ffyddlon,
yr wyt wedi'n porthi a'n cryfhau
a'r rhoddion sanctaidd hyn
yn Iesu Grist dy Fab.
Arwain ni ar ein ffordd,
er mwyn inni, ynghyd a'th holl bobl ffyddlon,
ddod i gyfranogi o wledd
dy deyrnas dragwyddol;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.**

31 Emyn

32 Dywed y gweinidog sy'n llywyddu:

Bendith Duw,
y Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân,
a fo yn *eich/ein* plith ac a drigo gyda *chwi/ni* yn wastad. **Amen.**

33 Dywed y gweinidog sy'n llywyddu:

Ewch mewn tangnefedd i garu a gwasanaethu'r Arglwydd.

**Diolch fo i Dduw. Amen.**